Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Ymgynghoriad ar Gymorth Cyfreithiol Troseddol: Cynigion i Ddiwygio'r Cynllun Ffioedd ar gyfer Cyfreithwyr

## Crynodeb Gweithredol

# Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Cynigion i Ddiwygio'r Cynllun Ffioedd ar gyfer Cyfreithwyr
# Crynodeb Gweithredol

**Cyflwyniad**

*Cefndir*

1. Ar ôl cyhoeddi'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAIR) ym mis Rhagfyr 2021 a'r ymgynghoriad dilynol ym mis Mawrth 2022, cynyddodd y llywodraeth ffioedd cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol 9%. Roedd yr ymgynghoriad Troseddu Is (Crime Lower) ym mis Ionawr 2024 yn canolbwyntio ar ddiwygio cynlluniau ffioedd llysoedd ynadon a gorsafoedd heddlu (a chyflwyno cynllun ffioedd ar wahân ar gyfer Llysoedd Ieuenctid), gan ddarparu buddsoddiad ychwanegol o £24 miliwn. Cafodd y newidiadau hyn eu rhoi ar waith ym mis Rhagfyr 2024, gan ddod â chyfanswm y cynnydd mewn cyllid ar gyfer ffioedd cyfreithwyr ers CLAIR i 12%.

2. Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer cynlluniau ffioedd cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol i gynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer ffioedd cyfreithwyr 12%, gan ddod â'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid ar gyfer ffioedd cyfreithwyr ers CLAIR i 24%. Bydd y cynnydd hwn mewn cyllid yn darparu hyd at £92 miliwn yn fwy y flwyddyn ar ôl i'r cynigion gael eu gweithredu'n llawn, mewn cyflwr sefydlog, gyda'r bwriad o gefnogi cynaliadwyedd y farchnad cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol.

*Ymgynghori ar fuddsoddiad ychwanegol*

3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn crynhoi sut rydym yn cynnig buddsoddi'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024. Byddai'r cynigion yn dosbarthu'r cyllid ychwanegol ar draws y rhan fwyaf o gynlluniau ffioedd cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, sy'n gweithredu mewn gorsafoedd heddlu, llysoedd ynadon a charchardai ac yn Llys y Goron.

4. Rydym ni'n credu bod y mesurau'n cyflawni amcanion hanfodol. Yn gyntaf, byddent yn cefnogi cynaliadwyedd y system – mae'r mesurau'n cynnwys codi ffioedd lle'r ydym o'r farn bod angen y cynnydd mwyaf, ac maent wedi'u cynllunio i gyrraedd darparwyr mor gyflym â phosibl, yn ogystal â lleihau'r baich gweinyddol lle bo modd. Yn ail, mae ein cynigion wedi'u cynllunio i gefnogi, cyn belled ag y bo modd, blaenoriaethau ehangach y llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol. Mae

hynny'n cynnwys ymrwymiad yr Arglwydd Ganghellor i leihau'r ôl-groniad o lysoedd troseddol.

5. Mae'r ymgynghoriad yn para wyth wythnos ac yn dod i ben ar 4 Gorffennaf 2025. Edrychwn ymlaen at glywed barn y rheini sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw cyhoeddi ymateb gan y llywodraeth yn ddiweddarach eleni.

**Cynllun Ffioedd Gorsafoedd Heddlu**

*Cefndir*

6. Telir am waith mewn gorsafoedd heddlu gan ffioedd sefydlog, ac mae'r rhain yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol ('cynllun'). Yn gyffredinol, gall achosion sy'n dair gwaith neu fwy na'r swm hwn gael ffi 'dianc', sy'n cael ei thalu ar gyfradd fesul awr (gyda rhai mân eithriadau).

7. Yn 2021, argymhellodd CLAIR y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio cyfraddau gwahanol ar gyfer gorsafoedd heddlu unigol. Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom gyhoeddi £18.5 miliwn o gynnydd mewn cyllid ar gyfer ffioedd gorsafoedd heddlu, a oedd yn caniatáu i ni gynyddu tua 80% o'r cynlluniau yn Llundain a'r tu allan i Lundain i'r un lefel. Dyma'r cam cyntaf tuag at gysoni – cael gwared ar amrywiadau daearyddol yn raddol.

*Cwblhau'r broses gysoni ar gyfer Ffioedd Gorsafoedd Heddlu*

8. Rydym nawr yn cynnig cysoni ffioedd gorsafoedd heddlu yn llwyr drwy wneud ffi sefydlog o £320, heb gynnwys TAW, yn berthnasol i bob un. Mae hynny'n uwch na'r ffi uchaf sy'n cael ei thalu ar hyn o bryd, ar gyfer cynllun Heathrow, sef ffi sefydlog o £315.86 heb gynnwys TAW. Felly, mae'r cynnig hwn yn cynyddu'r holl ffioedd yn y cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu.

9. O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r proffesiwn, gan gynnwys nifer y darparwyr sy'n gwneud gwaith cyfreithiwr ar ddyletswydd, rydym yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024 yn cyrraedd darparwyr cyn gynted â phosibl. Mae'r cynllun ffioedd ar gyfer gorsafoedd heddlu fel arfer yn codi biliau'n llawer cyflymach na'r cynlluniau eraill sy'n berthnasol i ffioedd cyfreithwyr. Felly, rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y cynllun hwn er mwyn gwneud i'r ffioedd ar gyfer gwaith cynlluniau ar ddyletswydd fod yn fwy deniadol i ddarparwyr a chwmnïau, a chefnogi cynaliadwyedd cyffredinol y proffesiwn yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

10. Bydd y gwaith cysoni'n mynd i'r afael â'r gwahaniaethau presennol rhwng cynlluniau ffioedd gorsafoedd heddlu – mewn egwyddor, nid oes rheswm pam y dylai'r gwaith

sy’n gysylltiedig â phresenoldeb mewn gorsafoedd heddlu amrywio cymaint. Bydd hefyd yn cyfrannu at symleiddio’r cynllun ffioedd gorsafoedd heddlu ac yn lleihau beichiau gweinyddol.

11. Rydym hefyd yn cynnig cadw’r cyswllt tair gwaith arferol â’r ffi sefydlog wrth osod y trothwy ar gyfer ffioedd dianc, sef £960 heb gynnwys TAW.

> **Cwestiwn 1)** Ydych chi’n cytuno â’r cynigion i gysoni ffioedd gorsafoedd heddlu i £320 (heb gynnwys TAW) a throthwyon ffioedd dianc i £960 (heb gynnwys TAW)? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Llysoedd Ynadon**

12. Roedd CLAIR yn argymell cynyddu 15% o leiaf ar yr holl ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol, gan gynnwys ffioedd llysoedd ynadon. Yn dilyn CLAIR, cynyddwyd ffioedd ar gyfer gwaith llysoedd ynadon 15%.

13. Yn 2024, cyhoeddwyd newidiadau i bwerau dedfrydu llysoedd ynadon, sydd bellach yn caniatáu i ynadon roi dedfrydau o garchar am hyd at 12 mis am un trosedd. Mae hyn yn golygu bod eu pwerau blaenorol wedi dyblu, ac amcangyfrifir bod hyn yn arbed oddeutu 2,000 o ddiwrnodau yn Llys y Goron. Bydd mwy o bwerau dedfrydu yn golygu y bydd mwy o achosion difrifol, ac felly gwaith mwy cymhleth o bosibl, yn cael eu cadw yn y llys ynadon. Yn fwy cyffredinol, rydym yn gweld cynnydd yn swmp y gwaith sy’n cael ei orffen yn y llys ynadon. Gall hyn, yn rhannol, fod oherwydd y cynnydd yn y pwerau dedfrydu, er bod nifer o ffactorau eraill yn gallu effeithio ar y llwyth gwaith.

14. Rydym yn cynnig y byddai cynnydd o 10% ar yr holl ffioedd ar gyfer y llysoedd ynadon ac Ieuenctid yn ymateb cymesur i adlewyrchu’r llwyth gwaith hwn sy’n esblygu. O’i gyfuno â’r cynnydd o 15% a gyflwynwyd yn 2022, rydym o’r farn y bydd hyn yn cefnogi’r gweithlu sydd ei angen nawr ac yn y dyfodol yn well.

> **Cwestiwn 2)** Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i gynyddu ffioedd llysoedd ynadon 10%? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Y Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Ymgyfreithwyr**

15. Y Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Ymgyfreithwyr (LGFS) yw’r cynllun a ddefnyddir i dalu am ymgyfreithwyr sy’n cynrychioli diffynyddion sy'n cael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron. Mae’r ffi’n cael ei phennu gan elfennau procsi amrywiol, gan gynnwys grŵp trosedd, canlyniad (ple euog, treial chwâl a threial), diwrnodau treial, a thudalennau o dystiolaeth erlyn (PPE).

16. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig dau welliant i'r LGFS. Bwriad un yw cyflwyno cymhareb sefydlog rhwng canlyniadau ar draws pob math o drosedd ar gyfer ffioedd sylfaenol, a bwriad y llall yw ceisio cynyddu ffioedd sylfaenol treialon ar gyfer y mathau o droseddau sy'n talu leiaf.

*Cymhareb sefydlog rhwng canlyniadau*

17. Rydym yn cynnig diwygio'r LGFS i sefydlu cymhareb sefydlog rhwng ffioedd sylfaenol ple euog, treial chwâl a threial. Ar hyn o bryd, yn dibynnu ar ddosbarth y trosedd, mae ffioedd sylfaenol ar gyfer ple euog yn cyfrif am 46% i 62% o ffi'r treial, ac mae ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon chwâl yn cyfrif am 62% i 75%. Rydym yn cynnig cysoni'r cynllun yn rhannol fel bod ffioedd ar gyfer ple euog yn cyfrif am 65% o ffi'r treial a ffioedd ar gyfer treialon chwâl yn cyfrif am 75%. Mae hyn yn creu cymhareb o 65:75:100, lle mae 100 yn cyfeirio at ffi sylfaenol y treial.

18. Drwy gyflwyno cymhareb sefydlog o 65:75:100 ar gyfer pob math o drosedd, bydd y rhan fwyaf o ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon chwâl a phle euog yn codi. Credwn y bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ystyried achos yn gynharach ac y gallai arwain at ddatrys mwy o achosion yn gynharach lle bo hynny'n briodol. Ar ben hynny, mae cyflwyno cymhareb sefydlog ar draws troseddau a chanlyniadau yn caniatáu i ni symleiddio'r LGFS yn rhannol a lleihau'r baich gweinyddol ar yr LAA a darparwyr cymorth cyfreithiol.

*Cynyddu'r ffioedd sylfaenol isaf*

19. Ochr yn ochr â gweithredu cymhareb sefydlog, rydym yn cynnig codi'r ffioedd sylfaenol ar gyfer y troseddau sy'n talu leiaf – sef mathau o droseddau E, F, G, H ac I.[1]

20. Nodwyd bod y troseddau hyn yn rhy isel yn CLAIR, gyda bwrgleriaeth (math o drosedd E) hefyd yn cael ei nodi mewn adroddiadau anecdotaidd gan randdeiliaid fel y math o achos sy'n aml yn arwain at wneud colled. Rydym yn cynnig mynd i'r afael â hyn drwy gynyddu ffioedd sylfaenol treialon sy'n cynnwys troseddau E i I rhwng 33% a 35%. Bydd Trosedd Math E yn gweld cynnydd o 35%, a bydd troseddau F i I yn codi 33%. Mae'r cynnydd ychydig yn uwch o 35% yn ein galluogi i sicrhau bod y ffioedd ar gyfer Trosedd Math E yn cyd-fynd â'r troseddau eraill sy'n gweld cynnydd, gan gysoni'r cynllun lle bo hynny'n bosibl a'i wneud yn symlach i ddarparwyr cymorth cyfreithiol a'r LAA.

[1] Math o drosedd: E - Bwrgleriaeth, ayb.; F – Troseddau eraill sy'n ymwneud ag anonestrwydd; G – Troseddau eraill sy'n ymwneud ag anonestrwydd (>£30,000); H – Troseddau amrywiol eraill; I – Troseddau yn erbyn cyfiawnder cyhoeddus.

**Cwestiwn 3)** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i weithredu cymhareb sefydlog o 65:75:100 ar gyfer ffioedd sylfaenol yn y Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Ymgyfreithwyr? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4)** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i godi oddeutu un rhan o dair ar y ffi sylfaenol ar gyfer treialon sy'n cynnwys Mathau o Droseddau E, F, G, H ac I? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5)** A oes unrhyw feysydd eraill o LGFS, fel achosion a draddodwyd ar gyfer dedfryd, a fyddai'n cael budd o gyllid ychwanegol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cyfraith Carchardai**

21. Roedd CLAIR yn argymell cynnydd o 15% o leiaf i'r holl ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol, gan gynnwys ffioedd cyfraith carchardai. Nododd nad oedd y cyfraddau perthnasol wedi newid ers blynyddoedd lawer, heblaw am ostyngiad yn 2014. Nid oes cynnydd wedi bod mewn ffioedd cyfraith carchardai ar ôl CLAIR, gan fod y llywodraeth flaenorol wedi canolbwyntio'r buddsoddiad cychwynnol ar ymgysylltu'n gynnar yn y system cyfiawnder troseddol.

22. Mae ystadegau Cymorth Cyfreithiol yn dangos bod nifer y darparwyr sy'n gwneud gwaith cyfraith carchardai wedi gostwng 63% rhwng 2012-13 a 2023-24. Fodd bynnag, mae'r galw'n cynyddu, gyda nifer cynyddol o wrandawiadau Bwrdd Parôl ac ôl-groniad o achosion i weithio drwyddynt. Mae nifer cyffredinol yr achosion cyfraith carchardai wedi cynyddu tua 10% yn 2023-24, o'i gymharu â 2022-23.

23. Mae gwneud y broses parôl mor gyflym ac effeithiol â phosibl – a sicrhau bod y Bwrdd Parôl yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau yn ddi-oed – yn alluogwr hanfodol i gael system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon. Mae cyfraith carchardai yn faes cymharol benodol o gymorth cyfreithiol troseddol, ac mae angen i ni gynnal y gweithlu i sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei gyflawni.

24. Wrth ddatblygu ein cynnig i gynyddu ffioedd cyfraith carchardai, rydym o'r farn ei bod yn briodol adlewyrchu'r cynnydd o 24% yn y cyllid cyffredinol sy'n cael ei ddyfarnu i broffesiwn cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol (sy'n cynnwys y cynnydd cyffredinol o 12% ers CLAIR a'r 12% ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024). Byddai cynyddu ffioedd cyfraith carchardai 24% yn dod â ffioedd ar gyfer y gwaith hwn i'r un lefel â'r cynnydd sy'n cael ei gynnig ar gyfer cynlluniau ffioedd cyfreithwyr eraill.

**Cwestiwn 6)** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd llysoedd ynadon 10%? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau dros eich ateb.

**Crynodeb Ariannol**

25. Mae'r Asesiad o'r Effaith sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi datganiad ariannol o'r effeithiau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynigion manwl a nodir yn y penodau uchod. Byddai gweithredu'r cynigion hyn yn cynyddu oddeutu 12% eto ar y cyllid ar gyfer ffioedd cyfreithwyr, gan ddod â'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid ar gyfer ffioedd cyfreithwyr ers CLAIR i oddeutu 24%.

26. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn rhoi amcangyfrif gorau o tua £88 miliwn y flwyddyn mewn cyflwr sefydlog, o fewn ystod o £79m i £96m, sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd yn yr amcangyfrif. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig mewn cyflwr sefydlog. Mae'r Asesiad o Effaith cysylltiedig yn darparu'r manylion llawn sydd wrth wraidd yr amcangyfrifon hyn. Bydd dyraniad terfynol yn cael ei gadarnhau yn ein hymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn.

27. Byddwn yn cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn maes o law, gan nodi'r diwygiadau y bwriadwn eu rhoi ar waith. Bryd hynny, byddwn hefyd yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o Effaith a fydd yn nodi'r amcangyfrifon diweddaraf gan ystyried unrhyw newidiadau i'r cynigion ar ôl ymgynghori ac unrhyw ddiweddariadau i'r data sylfaenol. Rydym yn bwriadu dyrannu'r swm llawn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Tabl 1 – Crynodeb o wariant blynyddol (cyflwr sefydlog)

| **Crynodeb o'r cynigion** | **Amcangyfrif o gostau blynyddol (cyflwr sefydlog) yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael (£m)** |
|---|---|
| Cysoni'r cynllun ffioedd ar gyfer presenoldeb mewn gorsafoedd heddlu | 61 |
| Cynyddu ffioedd llysoedd ynadon 10% | 12 |
| Cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer rhai treialon, a chyflwyno cymhareb sefydlog rhwng ffioedd sylfaenol ple euog, treial chwâl a threial LGFS | 10 |
| Cynyddu ffioedd cyfraith carchardai 24% | 4 |
| **Cyfanswm** | **88** |

*Nid yw'r ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau*

**Datganiad Cydraddoldeb**

28. Mae’r Datganiad Cydraddoldeb sy’n cyd-fynd â’r ddogfen ymgynghori hon yn ystyried yr effeithiau tebygol ar gydraddoldeb sy'n berthnasol i ymarferwyr cyfreithiol sy’n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol o’r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Gellir categoreiddio ymarferwyr yn fras fel ‘Ymgyfreithwyr’ sy’n cynnwys cyfreithwyr, gweithredwyr cyfreithiol a chynrychiolwyr achrededig mewn gorsafoedd heddlu. Mae’r Datganiad Cydraddoldeb hefyd yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb mewn perthynas â phobl sydd dan amheuaeth a diffynyddion y mae’r cynigion yn effeithio arnynt.

29. Ar gyfer pob cynnig, rydym wedi nodi, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, beth yw’r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb. Roedd ein gwaith dadansoddi’n ystyried effeithiau ein newidiadau arfaethedig ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol mewn perthynas â’r cynigion y bwriadwn eu rhoi ar waith.

30. Mae’r cwestiynau penodol isod am gydraddoldeb wedi’u cynllunio i wahodd adborth ar bob un o’r cynigion hyn a’u heffeithiau yn yr ymgynghoriad hwn. Yn dilyn canlyniadau’r ymgynghoriad, byddwn yn adolygu’r effeithiau ac yn diweddaru’r Datganiad Cydraddoldeb hwn lle bo angen.

**Cynigion ar gyfer Gorsafoedd Heddlu (Paragraffau 6-11)**

**Cwestiwn 7)** Ar sail eich profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt, mewn ffordd bositif neu negyddol? Cofiwch gynnwys pa grwpiau/unigolion ac egluro eich rhesymau. Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi'ch barn.

**Cwestiwn 8)** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau os gwelwch yn dda.

**Cynigion ar gyfer Llysoedd Ynadon (Paragraffau 12-14)**

**Cwestiwn 9)** Ar sail eich profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt, mewn ffordd bositif neu negyddol? Cofiwch gynnwys pa grwpiau/unigolion ac egluro eich rhesymau. Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi'ch barn.

**Cwestiwn 10)** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau os gwelwch yn dda.

**Cynigion y Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Ymgyfreithwyr (Paragraffau 15-20)**

**Cwestiwn 11)** Ar sail eich profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt, mewn ffordd bositif neu negyddol? Cofiwch gynnwys pa grwpiau/unigolion ac egluro eich rhesymau. Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi'ch barn.

**Cwestiwn 12)** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau os gwelwch yn dda.

**Cynigion ar gyfer Cyfraith Carchardai (Paragraffau 21-24)**

**Cwestiwn 13)** Ar sail eich profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt, mewn ffordd bositif neu negyddol? Cofiwch gynnwys pa grwpiau/unigolion ac egluro eich rhesymau. Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi'ch barn.

**Cwestiwn 14)** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau os gwelwch yn dda.